

RHAGAIR

gan John Booth, Cadeirydd



Bydd gweledigaeth ac arweinyddiaeth ein Sefydlydd a'n Llywydd, Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, yn parhau i ysbrydoli popeth rydyn ni'n ei wneud. Rwy'n cefnogi'r elusen arbennig hon ers sawl blwyddyn, ac rwyf bob amser yn cael fy synnu gan y bobl ifanc arbennig sydd, gyda'n cefnogaeth ni, wedi llwyddo i oresgyn heriau sylweddol ac sydd wedi llwyddo i drawsnewid eu bywydau.

Mae'r Prince's Trust wedi ymrwymo i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc i gyflawni eu potensial – p'un ai a ydyn nhw eisiau cael mwy o fudd o'u haddysg, dod o hyd i swydd, neu ddechrau busnes.

Mae ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein cefnogwyr a'n partneriaid ymroddgar yn credu'n gryf yn yr achos hwn, ac maen nhw wedi ymrwymo i helpu pobl ifanc i drawsnewid eu rhagolygon, ac i fyw'r bywydau gorau posib. Heb y bobl hyn, ni fydden ni wedi gallu cefnogi'r 950,000+ o bobl ifanc rydyn ni wedi'u cefnogi yn y DU ers 1976; ac ni fydden ni chwaith yn gallu gobeithio gwireddu ein nod o gefnogi miliwn o bobl ifanc eraill dros y ddeng mlynedd nesaf.

Mae grym cymuned y Prince's Trust wedi ein galluogi ni i ymestyn ein cyrhaeddiad ymhell y tu hwnt i'r DU er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc ledled y byd drwy rwydwaith o sefydliadau sydd bellach yn rhan o Grŵp y Prince's Trust. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein gweithredoedd rhyngwladol ac am ein chwaer elusennau yng Nghnada, Awstralia a Seland Newydd gan Y Fonesig Martina Milburn, Prif Weithredwr y Grŵp, ar dudalen 39.

Hoffwn ddiolch i Ei Uchelder Yr Aga Khan am ddod yn Noddwr Sefydol Byd-eang y Prince's Trust, ac i Lionel Ritchie am ymuno â ni fel ein Llysgennad Byd-eang cyntaf. Gwerthfawrogir eu cefnogaeth yn fawr iawn.

Bwysicaf oll, hoffwn ddiolch i Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru am ei arweinyddiaeth weledigaethol ac am ei gefnogaeth ddiflino. Mae'r ysbrydoliaeth a'r arweinyddiaeth mae'n ei gynnis i ni yn parhau i fod yn hanfodol i'n llwyddiant ac i'n heffeithiolrwydd.

Mae'n ffrainc cael bod yn rhan o waith sefydliad sy'n gweld y potensial ym mhob person ifanc – pwy bynnag ydyn nhw, a beth bynnag fo eu hamgylchiadau. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n Hymddiriedolwyr, y Pwyllgor Gwaith, ein staff a'n gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni ailddyblu ein hymdrechion i helpu hyd yn oed mwy o bobl ifanc i wella eu bywydau.

John Booth
Cadeirydd
Y Prince's Trust

CROESO

gan Nick Stace, Prif Weithredwr y DU



Rwy'n credu'n gryf iawn fod ein gwlad yn llwyddo pan mae ein pobl ifanc yn llwyddo, ac mai ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael pob cyfle i fanteisio ar eu talentau. Heb y gefnogaeth briodol, mae yna berygl y bydd rhai pobl ifanc yn cael eu llethu gan heriau yn eu bywydau, neu heb y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni eu potensial.

Un o'r heriau sy'n effeithio ar nifer pryderus o'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi yw troseddau treisgar. Rydyn ni'n gweithio i geisio llywio pobl ifanc oddi wrth sefyllfaoedd lle gallan nhw gael eu heffeithio gan droseddau treisgar drwy weithredu mentrau fel ein rhaglen 'Team', ond rwy'n credu bod yna fwy y gallwn ni ei wneud, ac mae clywed barn pobl ifanc ar sut i geisio datrys hynny'n gwbl allweddol.

Ym mis Rhagfyr, mynychais ddigwyddiad a oedd yn cael ei gynnal gan Eu Huchelderau Brenhinol Tywysog Cymru a Dug Sussex. Fe glywsom ni gan bobl ifanc, eu teuluoedd a gan grwpiau cymunedol a oedd yn trafod eu profiadau personol yn ymwneud ag effaith dorcalonnus troseddu treisgar. Cefais fy nharo gan y straeon y clywais, a gan yr effaith mae troseddau treisgar gallu ei gael ar bobl ifanc ac ar eu teuluoedd.

Rhywbeth arall rydyn ni'n ymwybodol ohono o'n hymchwil ein hunain yw bod yr hyder sydd

gan bobl ifanc yn eu hiechyd emosïynol yn parhau i fod ar y lefelau isaf erioed, a bod llawer o bobl ifanc, erbyn iddyn nhw gyrraedd eu hugeiniau cynnar, yn rhoi'r gorau i weithio tuag at wireddu eu breuddwydion.

Rydyn ni eisiau newid hyn, a dyma pam fod ein Tasglu UK2030, sydd â'r nod o greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc, yn gweithio gydag arweinwyr busnes a chymunedau ar draws y wlad i ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn unrhyw rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Ein nod yw y byddwn ni, erbyn 2030, yn byw mewn gwlad sy'n blaenoriaethu anghenion pobl ifanc, er mwyn i bobl ifanc allu diwallu anghenion y wlad.

Mae gwybod bod gennym ni etifeddiaeth mor gadarn i adeiladu arni yn galonogol iawn; mae'r Prince's Trust wedi helpu mwy na 950,000 o bobl ifanc, ac mae'n parhau i gefnogi dros 100 yn ychwanegol bob dydd. Rydyn ni'n helpu pobl ifanc ers 43 o flynyddoedd bellach, ac yn ystod

y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi llwyddo i helpu mwy o bobl na'r un flwyddyn arall, a'n hamcan yw gallu dweud hynny bob blwyddyn o hyn ymlaen.

Trwy fuddsoddi mewn canolfannau newydd, rydyn ni'n gallu sicrhau bod ein cyrsiau'n cael eu cynnal mewn mannau ysbrydoledig yn yr ardaloedd sydd eu hangen nhw fwyaf.

Mae ein canolfannau newydd ym Manceinion a Birmingham, a'r ganolfan newydd a fydd yn agor yn Llundain yn fuan, yn enghreifftiau gwych o'n hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn helpu mwy o bobl i lwyddo.

Rydyn ni'n ymrwymo i beidio â throï ein cefnau ar bobl ifanc sydd eisiau byw, dysgu ac ennill mwy.

Nick Stace
Prif Weithredwr DU
Y Prince's Trust

CYFLWYNIAD

gan Y Fonesig Martina Milburn DCVO CBE, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp y Prince's Trust



Mae Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn frwdfrydig iawn dros drawsnewid bywydau a chreu cymunedau cynaliadwy ar draws y Gymanwlad a thu hwnt. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi sefydlu Grŵp ehangach y Prince's Trust er mwyn gwneud hynny.

Yn ystod 2018/19, fe wnaethon ni groesawu'r Prince's Trust yn Seland Newydd at ein rhwydwaith o elusennau'r Prince's Trust, yn ogystal â'n gweithredoedd presennol yn y DU, Awstralia a Chanada. Ar yr un pryd, rydyn ni eisoes wedi sefydlu'r Prince's Trust International, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu ym Marbados, Groeg, India, Jamaica, Jordan, Malta a Phakistan.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc ar eu taith rhwng y byd addysg a'r byd gwaith. Mae llawer o raglenni'r Prince's Trust yn y DU bellach yn cael eu cynnal ledled y byd, gan roi'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo mewn bywyd. Rydyn ni hefyd yn gobeithio cefnogi cymunedau cynaliadwy a rhaglenni amgylcheddol.

Mae ein rhaglen gyflogadwyedd 'Get Into' yn galluogi pobl ifanc i gael mynediad at gyflogaeth ystyrlon yng Nghanada, Jordan ac India. Mae ein rhaglen Achieve yn galluogi pobl ifanc oed ysgol i ailgysylltu â'u haddysg ym Malta ac yn Seland Newydd. Mae ein rhaglen magu hyder 'Team' yn ymgysylltu pobl ifanc ym Marbados, ac rydyn ni'n cefnogi entrepreneuriaid ifanc yng Ngroeg ac ym Mhakistan.

Rydyn ni hefyd yn galluogi cyn-filwyr i ddechrau eu busnesau eu hunain yng Nghanada ac yn Awstralia; gan hybu diddordeb Ei Uchelder Brenhinol mewn creu cymunedau cynaliadwy; a galluogi i gymunedau brodorol warchod a dathlu eu hieithoedd eu hunain.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydyn ni'n bwriadu sefydlu rhaglenni newydd yn Affrica Is-Sahara, gan gynnwys yn Ghana, Rwanda ac yn Kenya, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at lansiad cyhoeddus y Prince's Trust yn America. Byddwn ni'n parhau i ddysgu ac i gynyddu ein dylanwad ar draws y Gymanwlad.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Ei Uchelder Yr Aga Khan, a ddaeth yn Noddwr Sefydol Byd-eang y Prince's Trust eleni. Gyda chefnogaeth Ei Uchelder ac ein cefnogwyr hael ac ymroddgar eraill, byddwn ni'n gallu trawsnewid mwy o fywydau a chreu cymunedau cynaliadwy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

A handwritten signature in black ink that reads "Martina".

Y Fonesig Martina Milburn
DCVO CBE